# Polisi Rhannu Gwybodaeth

| | |
|---|---|
| **Crynodeb o'r polisi:** | ***Rhoi dealltwriaeth glir o'r angen i rannu gwybodaeth a darparu dull cyson o rannu gwybodaeth. Gwahaniaethu rhwng rhwymedigaethau statudol yr Heddlu ar gyfer rhannu gwybodaeth a'r angen i rannu ar gyfer gofynion gweithredol uniongyrchol a diogelu oedolion a phlant.*** |
| **Rhif y polisi:** | ***012/2021*** |
| **Rheoli fersiynau:** | ***Fersiwn: 5.0***<br>***Dyddiad:*** *09/09/2021*<br>***Awdur:*** [redacted]<br>***Rhesymeg:*** *Templed newydd ac adolygiad*<br><br>***Mae'r manylion rheoli fersiynau llawn wedi'u cynnwys ar ddiwedd y polisi*** |
| **Dyddiad gweithredu:** | ***09/09/2021*** |
| **Dyddiad adolygu:** | ***09/09/2023***<br>***Gall perchennog y polisi gynnal adolygiad yn gynt os bydd newidiadau mawr, er enghraifft, i ddeddfwriaeth sy'n gysylltiedig â'r polisi, newidiadau mawr i'r broses, ac ati.*** |
| **Perchennog/cyswllt:** | ***Swyddogion Rhannu Gwybodaeth, IMBA*** |
| **Cymeradwyaeth:** | ***Bwrdd: Bwrdd Sicrwydd Gwybodaeth***<br>***Dyddiad cymeradwyo: 09/09/2021*** |
| **Cymeradwyaeth Derfynol** | ***Bwrdd: Bwrdd Sicrwydd Gwybodaeth***<br>***Dyddiad cymeradwyo: 09/09/2021*** |
| **Ymgynghori a chymeradwyo:** | ***Mae hwn yn adolygu ac yn diweddaru polisi sy'n bodoli eisoes ar dempled newydd. Ymgynghorwyd â'r canlynol:***<br><br>***Rheolwr Gwybodaeth, Swyddog Diogelu Data, Ymgynghorydd Diogelu Data*** |
| **Cyfieithiad Saesneg** | ***Oes*** |

# 1. Datganiad Polisi

Bydd y polisi hwn yn sicrhau bod Heddlu Dyfed-Powys yn bodloni ac yn gweithredu'r gofynion cyfreithiol o dan Ddeddf Diogelu Data 2018 (DPA), Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data 2018 (GDPR y DU) a Deddf Hawliau Dynol 1998 (HRA) wrth rannu gwybodaeth bersonol.

Er mwyn helpu i sicrhau cydymffurfiaeth, bydd Heddlu Dyfed-Powys yn dilyn Arferion Proffesiynol Awdurdodedig yr Heddlu (APP) y Coleg Plismona ar Reoli Gwybodaeth – Rhannu Gwybodaeth. Yn ogystal, bydd Heddlu Dyfed-Powys yn dilyn canllawiau a ddarparwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) sy'n cynnwys Cod Ymarfer Rhannu Data Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Bydd Heddlu Dyfed-Powys yn cadw at APP y Coleg Plismona a Chytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI), fel sail ar gyfer canllawiau a thempledi ar gyfer datblygu a chreu cytundebau rhannu gwybodaeth.

***Mae’n berthnasol (ond heb fod yn gyfyngedig) i:*** *Bob categori o gyflogeion Heddlu Dyfed-Powys, p'un a ydynt yn llawn amser, yn rhan-amser, yn barhaol, ar gontract cyfnod penodol, mewn rôl dros dro (gan gynnwys staff asiantaeth, gweithwyr cysylltiol a chontractwyr) neu staff ar secondiad. Rhaid i unrhyw gyflogai sy'n cyrchu ac yn defnyddio asedau ac eiddo'r Heddlu roi sylw dyledus i gynnwys y polisi hwn.*

# 2. Cwmpas y Polisi

Mae gwybodaeth yn ased hanfodol i'r sefydliad. Mae pob adran ac unigolyn yn defnyddio gwybodaeth yn ddyddiol er mwyn bodloni gofynion eu rôl. Rhaid rheoli a defnyddio'r adnodd hwn yn briodol i sicrhau bod Heddlu Dyfed-Powys (HDP) yn effeithiol ac yn effeithlon o ran cyflawni ei gyfrifoldeb at ddibenion plismona a'i rwymedigaethau statudol. Diffinnir diben plismona fel a ganlyn:

I. diogelu bywyd ac eiddo;
II. cadw trefn;

III. atal troseddau rhag cael eu cyflawni;
IV. dod â throseddwyr o flaen eu gwell;
V. unrhyw ddyletswydd neu gyfrifoldeb sy'n deillio o gyfraith gyffredin neu statud.

Gellir defnyddio data a ddarperir mewn Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data (DPIA) i nodi risgiau preifatrwydd sy'n gysylltiedig â rhannu gwybodaeth bersonol.

Mae HDP wedi ymrwymo i weithio mewn modd cydgysylltiedig gydag asiantaethau partner i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â phlismona, diogelu'r cyhoedd, troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Mae rhannu gwybodaeth yn effeithiol yn hwyluso cysylltiadau da o fewn gwasanaeth yr heddlu, gydag asiantaethau partner, trydydd partïon, sefydliadau eraill a chymunedau ardal Heddlu Dyfed-Powys.

Anogir yr arfer o rannu gwybodaeth rhwng HDP a thrydydd partïon, ond er mwyn diogelu'r wybodaeth a thestun y wybodaeth, rhaid cael cytundeb rhannu gwybodaeth (ISA) ffurfiol lle mae gwybodaeth yn cael ei rhannu'n rheolaidd. Mae'r eithriadau i hyn yn ymwneud ag amgylchiadau brys (mwy o fanylion isod) neu lle mae achosion o rannu nad ydynt yn rheolaidd ond mae sail gyfreithlon yn gysylltiedig â'r rhannu. Gellir cael cyngor ynghylch sail gyfreithlon gan yr Adran Rheoli Gwybodaeth a Chydymffurfiaeth lle mae'r gwaith o rannu'n digwydd. Mae HDP yn llofnodwr Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI) a bydd yn rhoi sylw dyledus i'r Cytundeb a'r canllawiau perthnasol. Bydd unrhyw ISAs yn dilyn templed(i) WASPI.

Mewn sefyllfaoedd brys, mae deddfwriaeth Diogelu Data yn caniatáu datgelu data personol os yw o "*fuddiant allweddol i fywyd*" unrhyw berson. Bydd HDP yn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n brydlon ac yn effeithiol o dan yr amgylchiadau hyn. Mae'r adran hon yn ymdrin ag achosion eithriadol, unigryw o ddatgelu data mewn sefyllfaoedd annisgwyl neu argyfyngau, er enghraifft, mewn achosion lle mae bywyd yn y fantol, megis lle datgelir hunaniaeth a/neu hanes meddygol unigolyn i adran Damweiniau ac Argyfyngau ysbyty sy’n ei drin, ar ôl damwain ffordd ddifrifol. Dim ond pan fydd amodau brys gwirioneddol sy'n golygu bod angen rhannu data ar unwaith heb gyfeirio at ganllawiau a/neu gytundebau ysgrifenedig y dylid datgelu gwybodaeth. Dylid cofnodi'r rhesymeg dros rannu'r wybodaeth.

Dim ond o fewn y fframwaith statudol a chyfraith gyffredin priodol y dylid rhannu gwybodaeth. Dylid rhoi sylw priodol i ddeddfwriaeth Diogelu Data, Deddf Hawliau Dynol 1998 a dyletswydd hyder y gyfraith gyffredin.

Bydd yr holl aelodau staff yn cael y canllawiau priodol o ran rhannu gwybodaeth ag asiantaethau eraill, er mwyn sicrhau bod disgwyliadau realistig yn bodoli a bod safonau cyffredin yn cael eu cymhwyso ar draws y sefydliadau i fynd i'r afael â chydymffurfiaeth â'r egwyddorion Diogelu Data. Mae pawb yn gyfrifol am sicrhau, pan fydd gwybodaeth yn cael ei rhannu, ei bod yn cael ei gwneud mewn ffordd gyfreithlon a chymesur a bod yr achosion o rannu gwybodaeth a'r rhesymeg dros rannu yn cael eu cofnodi.

Yr ICO (Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth) yw'r awdurdod goruchwylio annibynnol ar gyfer diogelu data yn y DU ac mae'n cynnal hawliau gwybodaeth ar gyfer y cyhoedd. Gall unrhyw achosion o dor diogelwch data o dan GDPR y DU neu'r Ddeddf Diogelu Data gael eu gorfodi gan y Swyddfa gyda'r pwerau sydd ganddi, fel y nodir yn Rhan 6 o Ddeddf Diogelu Data 2018. Gall hyn, er enghraifft, gynnwys rhybuddion, dirwyon neu hysbysiadau cosb. Ar gyfer achosion difrifol o dor diogelwch, gellir gosod dirwyon o hyd at £17.5 miliwn.

*Mae canllawiau ar y mathau o gytundebau y gellir eu defnyddio ar gael ar y dudalen Rhannu Gwybodaeth ar y fewnrwyd.*

# 3. Pwerau a Gofynion Polisi/Cyfreithiol

Mae gan Heddlu Dyfed-Powys rwymedigaeth gyfreithiol i gydymffurfio â Rheoliadau Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU). Mae'r Broses o brosesu data personol at ddibenion gorfodi'r gyfraith yn dod o dan Gyfarwyddeb Gorfodi'r Gyfraith. Bydd Heddlu Dyfed-Powys yn cyfeirio at APP y Coleg Plismona - Rheoli Gwybodaeth – Rhannu Gwybodaeth, Cod Ymarfer yr ICO ar Rannu Gwybodaeth a WASPI wrth baratoi cytundebau rhannu gwybodaeth.

**Deddfwriaeth berthnasol:**

- Deddf Diogelu Data 2018
- Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU)
- Deddf Hawliau Dynol 1998

- Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

**Dogfennau Polisi, Cod Ymarfer a Chanllaw Eraill:**

- Gweithgor Erthygl 29 (Bwrdd Diogelu Data Ewrop (EDPB) erbyn hyn)).
- Dogfen ganllaw Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data Heddlu Dyfed-Powys
- Polisi Rheoli Cofnodion Heddlu Dyfed-Powys
- Polisi Diogelu Data Heddlu Dyfed-Powys
- Polisi Tor Diogelwch Data Data Heddlu Dyfed-Powys
- APP y Coleg Plismona – Rheoli Gwybodaeth – Rhannu Gwybodaeth
- Canllaw ACPO i Gydymffurfiaeth Cynllun Cyhoeddi Gwasanaeth yr Heddlu f4.0 (Gofynion Sylfaenol ACPO)
- ICO - Rhannu data: cod ymarfer
- Canolfan Wybodaeth Rhannu Data'r ICO
- Canllawiau Asesiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data'r ICO
- Y Safon Ryngwladol ar Reoli Cofnodion, ISO 15489
- Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI)

Yn ogystal, bydd rhai mathau o ddata yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth arall sy'n cwmpasu meysydd pwnc penodol. Dylai adrannau sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu eu gwaith a'i goblygiadau o ran rhannu data.

## ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

Mae adran 4 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi'r **nodweddion gwarchodedig** sy'n gymwys i'w gwarchod o dan y Ddeddf fel a ganlyn: Oedran; Anabledd; Ailbennu Rhywedd; Priodas a Phartneriaeth Sifil; Beichiogrwydd a Mamolaeth; Hil; Crefydd neu Gred; Rhyw; Cyfeiriadedd Rhywiol.

Mae **dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus** yn gosod gofyniad cyfreithiol rhagweithiol ar gyrff cyhoeddus i ystyried, wrth arfer eu swyddogaethau, yr angen i:

- ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth, ac unrhyw ymddygiad arall sy'n anghyfreithlon o dan y Ddeddf;
- hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol ac unigolion nad ydynt yn ei rhannu;

- meithrin perthnasoedd da rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol ac unigolion nad ydynt yn ei rhannu.

Mae'r ddyletswydd cydraddoldeb yn berthnasol i'r holl nodweddion gwarchodedig ac eithrio Priodas a Phartneriaeth Sifil: dim ond y ddyletswydd i ystyried yr angen i ddileu gwahaniaethu sy'n berthnasol i'r nodwedd hon.

Mae cynnal **asesiad o effaith ar gydraddoldeb** yn cynnwys asesu'n systematig effeithiau tebygol neu wirioneddol polisïau ar bobl mewn perthynas â'r holl nodweddion gwarchodedig a nodir uchod.

Dylid cynnal asesiad o effaith ar gydraddoldeb ar unrhyw bolisi sy'n **berthnasol** i ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus. Mae templed asesiad o effaith ar gydraddoldeb ar gael yma.

**Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i Gwblhau**

| | |
|---|---|
| **Enw:** | [redacted] |
| **Adran:** | Rheoli Gwybodaeth a Chydymffurfiaeth |
| **Llofnodwyd:** | [redacted] |
| **Dyddiad:** | 19 Awst 2021 |

**TYSTYSGRIF CYDYMFFURFIO'R DDEDDF HAWLIAU DYNOL**

Mae'r polisi hwn wedi'i ddrafftio yn unol â'r Ddeddf Hawliau Dynol ac fe'i hadolygwyd ar sail ei gynnwys a'r dystiolaeth ategol a bernir ei fod yn cydymffurfio â'r Ddeddf honno a'r egwyddorion sy'n sail iddi.

| | |
|---|---|
| **Enw:** | [redacted] |
| **Adran:** | Gwasanaethau Cyfreithiol |
| **Llofnodwyd:** | [redacted] |
| **Dyddiad:** | 19.08.2021 |

# 4. Opsiynau a Hapddigwyddiadau

**Rolau a Chyfrifoldebau o fewn Heddlu Dyfed-Powys**

**Prif Gwnstabl:** Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys yw'r Rheolwr Data ac o'r herwydd mae ganddo gyfrifoldeb cyffredinol am brosesu'r holl ddata personol a brosesir gan Heddlu Dyfed-Powys yn gyfreithlon. Mae ganddo hefyd atebolrwydd cyffredinol am ddogfennau gweithdrefnol ac mae'n bennaf gyfrifol am gydymffurfio â'r polisi hwn a diogelu data ar draws yr Heddlu cyfan.

**Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO):** Dirprwy Brif Gwnstabl (DPG) Heddlu Dyfed-Powys yw'r Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO) penodedig. Mae'n gyfrifol am:

- Atebolrwydd cyffredinol am risg gwybodaeth ar draws Heddlu Dyfed-Powys
- Cynrychioli a hyrwyddo risg gwybodaeth
- Sicrhau bod ganddo'r wybodaeth ddiweddaraf am yr holl hyfforddiant angenrheidiol er mwyn parhau i fod yn effeithiol yn ei rôl fel SIRO
- Deall effaith risgiau gwybodaeth ar gofrestr risg yr Heddlu, a sut y gellir lleihau a rheoli'r risgiau hynny, a
- Chadeirio'r Bwrdd Sicrwydd Gwybodaeth

**Swyddog Diogelu Data (DPO):** Pennaeth Rheoli Gwybodaeth Heddlu Dyfed-Powys yw'r Swyddog Diogelu Data (DPO) penodedig. Mae'n gyfrifol am:

- Ddiogelu cyfrinachedd data personol ar draws yr Heddlu
- Cynrychioli a hyrwyddo materion a gofynion diogelu data
- Sicrhau bod yr Heddlu'n bodloni'r safonau ymarferol uchaf ar gyfer trin data personol
- Galluogi proses o rannu gwybodaeth yn addas â chyrff eraill
- Sicrhau bod yr holl faterion diogelu data'n cael eu hadlewyrchu'n briodol ym mholisïau, gweithdrefnau, prosesau a strategaethau'r Heddlu ar gyfer cyflogeion
- Cynorthwyo'r Heddlu i ddangos cydymffurfiad â deddfwriaeth diogelu data'r DU fel rhan o'r ffocws gwell ar atebolrwydd
- Gweithredu fel pwynt cyswllt ar gyfer testunau data a'r ICO, a
- Hysbysu a chynghori ar rwymedigaethau diogelu data ledled yr Heddlu.

**Perchennog/Perchnogion Asedau Gwybodaeth:** Mae Perchnogion Asedau Gwybodaeth (IAOs) yn uwch gyflogeion sy'n berchnogion enwebedig ar un neu fwy o asedau gwybodaeth a nodwyd. Maent yn gyfrifol am:

- Sicrhau bod yr asedau gwybodaeth y maent yn gyfrifol amdanynt yn cael eu diogelu'n briodol a bod unrhyw wybodaeth a rennir yn cael ei rhannu'n briodol, yn unol â deddfwriaeth ac unrhyw brotocolau rhannu gwybodaeth perthnasol sydd ar waith.
- Mae IAOs yn gyfrifol am sicrhau bod protocolau rhannu gwybodaeth priodol ar waith lle mae gwybodaeth yn cael ei rhannu'n rheolaidd rhwng yr Heddlu ac asiantaethau partner.
- Mae IAOs yn gyfrifol am sicrhau yr ymgysylltir yn gynnar â'r Adran Rheoli Gwybodaeth a Chydymffurfiaeth lle mae gweithgareddau rhannu gwybodaeth newydd yn cael eu hystyried.
- Monitro a deall pa wybodaeth - papur ac electronig - sy'n cael ei chadw a sut mae'n cael ei chynnal; gwybod a chymeradwyo pwy sydd â mynediad iddi a pham.
- Ceisio defnyddio gwybodaeth yn gyfan gwbl o fewn y gyfraith
- Nodi a mynd i'r afael â risgiau i'r wybodaeth, ac
- Annog diwylliant sy'n gwerthfawrogi, amddiffyn a defnyddio gwybodaeth er budd y cyhoedd.

**Rheolwr Datgeliadau, Cofnodion a Rhyddid Gwybodaeth:** Y Rheolwr Datgeliadau, Cofnodion a Rhyddid Gwybodaeth sy'n gyfrifol am oruchwylio'r gwaith o baratoi protocolau rhannu gwybodaeth. Mae’n gyfrifol am:

- Fod yn effeithiol wrth gyfarwyddo, rheoli, monitro a darparu goruchwyliaeth reoli o'r gweithgareddau a gyflawnir gan swyddogion rhannu gwybodaeth er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.
- Sicrhau bod gan staff sy’n rhannu gwybodaeth y cymorth, y sgiliau a’r cymwyseddau perthnasol sydd eu hangen i ymgymryd â'u rôl a sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth dda o'u rôl a'u cyfrifoldebau gyda'r nod o ddarparu gwasanaeth effeithiol yn unol â deddfwriaeth, canllawiau, a pholisi perthnasol, ac ati.
- Rhoi cyngor arbenigol ar faterion rhannu gwybodaeth i staff ar draws yr Heddlu

- Sefydlu gweithdrefnau a mesurau diogelu i reoli rhwymedigaethau statudol y Prif Swyddog mewn perthynas â datgelu gwybodaeth o dan ddeddfwriaeth cydymffurfio â gwybodaeth.

**Swyddogion Rhannu Gwybodaeth:** Mae Swyddogion Rhannu Gwybodaeth yn gyfrifol am:

- Gydgysylltu a pharatoi'r holl brotocolau rhannu gwybodaeth, contractau prosesu data, cytundebau datgelu data a dogfennau cysylltiedig.
- Gweinyddu a chydlynu'r broses o asesu'r effaith ar ddiogelu data o fewn yr Heddlu.
- Drwy weithio'n rhagweithiol gydag adrannau'r Heddlu ac Unedau Rheoli Sylfaenol (URSau), sefydlu lle mae achosion o rannu gwybodaeth a datgelu gwybodaeth yn digwydd a sicrhau, lle bo angen, bod asesiadau o'r effaith ar ddiogelu data wedi'u cynnal a bod cytundebau perthnasol ar waith.
- Datblygu a chynnal perthynas waith effeithiol gyda staff Heddlu Dyfed Powys, staff SCHTh, asiantaethau partner ac asiantaethau eraill.
- Rhoi cyngor arbenigol i gydweithwyr, asiantaethau partner ac asiantaethau eraill ar brotocolau cywir i'w dilyn mewn perthynas â rhannu gwybodaeth, datgeliadau data a'r broses o asesu'r effaith ar ddiogelu data.
- Cofnodi a rheoli cytundebau a dogfennau cysylltiedig mewn perthynas â'r holl achosion o rannu gwybodaeth a datgeliadau data ac asesiadau o'r effaith ar ddiogelu data ar gyfer yr Heddlu.
- Cefnogi'r Rheolwr Datgeliadau, Cofnodion a Rhyddid Gwybodaeth i weithredu a monitro'r holl newidiadau gweithdrefnol sy'n ofynnol gan newidiadau deddfwriaethol.
- Cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau a newidiadau mewn perthynas â rhannu gwybodaeth, datgelu gwybodaeth a phreifatrwydd data a chael y wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau cenedlaethol i arferion Rheoli Gwybodaeth a Chydymffurfiaeth, newidiadau i ddeddfwriaeth berthnasol, Cod Ymarfer a chanllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a Chytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol (WASPI) Cymru er mwyn rhoi arweiniad a chymorth i staff, swyddogion a chwsmeriaid allanol gyda materion o'r fath.

**Ymgynghorydd Diogelu Data:** Mae'r Ymgynghorydd Diogelu Data yn gyfrifol am:

- Ddarparu cyngor Diogelu Data fel rhan o'r gwaith o ddatblygu cytundebau rhannu gwybodaeth gan gynnwys cynghori ar y sail gyfreithiol dros rannu gwybodaeth bersonol.
- Cynnal ymwybyddiaeth o faterion diogelu data ar draws yr Heddlu.
- Rhoi cyngor arbenigol ar faterion rhannu gwybodaeth i staff ar draws yr Heddlu.
- Annog diwylliant sy'n gwerthfawrogi, amddiffyn a defnyddio gwybodaeth er budd y cyhoedd.
- Sicrhau bod pob rheolwr llinell yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau a'u hatebolrwydd o ran diogelu data.
- Sicrhau bod pob cyflogai yn cael yr hyfforddiant priodol ac angenrheidiol i ddatblygu eu dealltwriaeth o egwyddorion diogelu data a sut i'w defnyddio, a
- Hysbysu a chynghori ar rwymedigaethau diogelu data ledled yr Heddlu

**Bwrdd Sicrwydd Gwybodaeth:** Rôl y Bwrdd yw:

- Cynnal goruchwyliaeth strategol, a chefnogi'r gwaith o reoli'r holl weithgareddau sy'n ymwneud â defnyddio, prosesu, cadw a throsglwyddo gwybodaeth neu ddata o dan reolaeth Heddlu Dyfed-Powys a'r strwythurau, y systemau a'r prosesau a ddefnyddir at y dibenion hynny yn unol ag APP y Coleg Plismona ar Reoli Gwybodaeth sy'n cynnwys y Ddeddf a'r Rheoliadau;
- Darparu cymorth a chyfeiriad llywodraethu i'r Adran Rheoli Gwybodaeth a Chydymffurfiaeth yn unol â gweledigaeth yr Heddlu i 'Ddiogelu ein Cymunedau Gyda'n Gilydd'; a
- Gweithio'n unol â'r grwpiau a'r byrddau eraill i gyflawni cenhadaeth, gweledigaeth a gwerthoedd yr Heddlu, gweledigaeth y Prif Gwnstabl a'r cynllun cyflawni i gefnogi'r Cynllun Heddlu a Throseddu.

**Rheolwyr Llinell:** Mae pob Rheolwr Llinell yn gyfrifol am:

- Sicrhau bod y Polisi Rhannu Gwybodaeth yn cael ei weithredu a'i ddilyn yn eu hadran.

- Sicrhau bod protocolau rhannu gwybodaeth priodol ar waith lle mae gwybodaeth yn cael ei rhannu'n rheolaidd rhwng yr Heddlu ac asiantaethau partner.
- Sicrhau yr ymgysylltir yn gynnar â'r Adran Rheoli Gwybodaeth a Chydymffurfiaeth lle mae gweithgareddau rhannu gwybodaeth newydd yn cael eu hystyried.
- Sicrhau, pan rennir gwybodaeth, ei fod yn cael ei wneud yn briodol, yn unol â deddfwriaeth a bod gweithgarwch rhannu’n cael ei gofnodi'n briodol.

**Pob Cyflogai:** Mae gan bob cyflogai gyfrifoldeb am**:**

- Sicrhau eu bod yn gyfarwydd â Deddf Diogelu Data 2018 ac yn cymryd cyfrifoldeb personol i ddiogelu data, ei gadw'n gyfredol a rhannu dim ond yr hyn sy'n angenrheidiol yn unol â deddfwriaeth, canllawiau, a chyda pholisïau a gweithdrefnau'r Heddlu.
- Mae pob cyflogai yn gyfrifol am gadw at y Polisi Rhannu Gwybodaeth a dogfennau cysylltiedig.
- Sicrhau bod protocolau rhannu gwybodaeth priodol ar waith wrth ystyried rhannu gwybodaeth ag asiantaethau partner, oni bai y rhennir gwybodaeth fel mater o frys, fel y nodir uchod.
- Sicrhau, pan rennir gwybodaeth, ei fod yn cael ei wneud yn briodol, yn unol â deddfwriaeth a bod gweithgarwch rhannu’n cael ei gofnodi'n briodol.
- Sicrhau mai dim ond yr isafswm angenrheidiol o wybodaeth a gaiff ei rhannu.

## Cod Moeseg

Yn unol â naw Egwyddor Plismona'r Cod Moeseg, mae'r Polisi hwn yn ceisio mynd i'r afael â'r canlynol:-

- **Atebolrwydd** - Rydych chi'n atebol am eich penderfyniadau, eich gweithredoedd a'ch hepgoriadau
- **Tegwch** - Rydych chi'n trin pobl yn deg.
- **Gonestrwydd** - Rydych chi'n onest ac yn ddibynadwy.
- **Uniondeb** - Rydych chi bob amser yn gwneud y peth iawn.
- **Arweinyddiaeth** - Rydych chi'n arwain trwy esiampl dda.

- **Gwrthrychedd** - Rydych chi'n gwneud dewisiadau ar sail tystiolaeth a'ch barn broffesiynol orau.
- **Bod yn Agored** - Rydych chi'n agored ac yn dryloyw yn eich gweithredoedd a'ch penderfyniadau.
- **Parch** - Rydych chi'n trin pawb â pharch.
- **Anhunanoldeb** - Rydych chi'n gweithredu er budd y cyhoedd.

Mae'r polisi hwn yn rhoi pwyslais penodol ar:

**Atebolrwydd** - O dan ddeddfwriaeth diogelu data'r DU, mae egwyddor atebolrwydd yn gofyn am gymryd cyfrifoldeb am y ffordd yr ymdrinnir â data personol a phrofi cydymffurfiad â'r egwyddorion diogelu data eraill.

**Tegwch** - O dan ddeddfwriaeth diogelu data'r DU, mae'r elfen o degwch (sy'n rhan o egwyddor fwy) yn ei gwneud yn ofynnol i brosesu data personol fod yn deg yn ogystal ag yn gyfreithlon bob amser. Mae hyn yn golygu peidio â defnyddio data personol mewn ffyrdd a allai gael effeithiau andwyol ar destun y data.

**COD MOESEG - TYSTYSGRIF CYDYMFFURFIO**

Mae'r polisi hwn wedi'i ddrafftio yn unol â'r Coed Moeseg ac fe'i hadolygwyd ar sail ei gynnwys a'r dystiolaeth ategol a bernir ei fod yn cydymffurfio â'r Cod hwnnw a'r egwyddorion sy'n sail iddo.

| | |
|---|---|
| **Enw:** | [redacted] |
| **Adran:** | Rheoli Gwybodaeth a Chydymffurfiaeth |
| **Llofnodwyd:** | [redacted] |
| **Dyddiad:** | 19 Awst 2021 |

# 5. Gweithredu ac adolygu

Bydd y SIRO, y DPO a'r Bwrdd Sicrwydd Gwybodaeth yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y cytundebau Rhannu Gwybodaeth sydd ar waith.

Mae'r polisi hwn yn eiddo i'r Adran Rheoli Gwybodaeth a Chydymffurfiaeth. Bydd y broses adolygu yn cael ei chynnal gan y swyddog Rhannu Gwybodaeth o dan gyfarwyddyd y Rheolwr Datgeliadau, Cofnodion a Rhyddid Gwybodaeth bob dwy flynedd i sicrhau effeithiolrwydd parhaus y polisi, ac ystyried unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth, canllawiau cenedlaethol, canllawiau ICO, ac ati, oni bai bod newidiadau cyn y cyfnod hwn yn dangos bod angen diweddaru'r polisi hwn.

Bydd effeithiolrwydd y polisi yn cael ei fonitro'n rheolaidd o fewn y cyfnod adolygu o ddwy flynedd a bydd unrhyw bryderon mawr yn cael eu codi fel y bo'n briodol. Bydd cytundebau rhannu gwybodaeth yn destun archwiliad i sicrhau effeithiolrwydd y ddarpariaeth o Gytundebau Rhannu Gwybodaeth yn unol â'r polisi hwn.

Yn achos unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r polisi hwn, ei gynnwys, neu ddogfennau canllaw cysylltiedig - dylai unigolion gysylltu â Swyddogion Rhannu Gwybodaeth Heddlu Dyfed-Powys neu'r Rheolwr Datgeliadau, Cofnodion a Rhyddid Gwybodaeth.

Bydd y polisi hwn yn cael ei hyrwyddo'n briodol, a all gynnwys codi ymwybyddiaeth pan ddarperir mewnbynnau hyfforddi a chyflwyniadau i staff ledled yr Heddlu. Bydd y polisi ar gael ar Fewnrwyd a Rhyngrwyd yr Heddlu.

Lle nodir problemau, bydd y Swyddog(ion) Rhannu Gwybodaeth neu'r Rheolwr Datgeliadau, Cofnodion a Rhyddid Gwybodaeth yn gweithio'n agos gyda chynrychiolwyr o'r adrannau perthnasol i fynd i'r afael â'r materion a sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu.

Bydd unrhyw faterion sy'n peri pryder neu risg o ran cydymffurfio â rhannu gwybodaeth yn cael eu cyfeirio at y Swyddog Diogelu Data, y Cynghorydd Diogelu Data, Swyddog Diogelwch Gwybodaeth yr Heddlu, SIRO yr Heddlu a'r Bwrdd Sicrwydd Gwybodaeth, yn dibynnu ar lefel y difrifoldeb. Pan sefydlir bod achos o dor diogelwch data wedi digwydd o ganlyniad i rannu gwybodaeth, dilynir Polisi Tor Diogelwch Data'r Heddlu a'r broses gysylltiedig ar gyfer adrodd am dor diogelwch data. Gall adroddiadau o'r fath, ac ymchwiliadau dilynol, dynnu sylw at broblemau gyda'r polisi hwn, y broses rhannu gwybodaeth, protocolau rhannu gwybodaeth a chanllawiau cysylltiedig, a allai arwain at adolygiad angenrheidiol. Os digwydd hyn, cymerir camau perthnasol. Bydd y Rheolwr Datgeliadau, Cofnodion a Rhyddid Gwybodaeth yn gweithio'n agos gyda chynrychiolwyr o'r adrannau perthnasol a'r Cynghorydd Diogelu Data i fynd i'r afael â'r problemau a sicrhau y bydd unrhyw wersi a ddysgwyd yn cael eu hadrodd yn llawn a'u rhaeadru yn ôl yr angen.

**Dangosyddion Perfformiad Allweddol:** Bydd ystadegau mewn perthynas â chytundebau yn y gorffennol, y presennol a'r dyfodol yn cael eu hadrodd yn fisol i'r Swyddog Diogelu Data ac yn chwarterol i'r Bwrdd Sicrwydd Gwybodaeth.

**Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000**

Mae adran 19 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn gosod gofyniad ar yr Heddlu i gyhoeddi pob polisi ar wefan yr Heddlu. Polisïau yw pam rydyn ni'n gwneud pethau a gweithdrefnau yw sut rydyn ni'n eu gwneud. Rhaid cynnal adolygiad fesul achos o weithdrefnau i amddiffyn prosesau gorfodi'r gyfraith ac ystyriaethau iechyd a diogelwch. Pan fydd dogfen bolisi a gweithdrefn gyfun yn cael ei chynhyrchu mae'n ofynnol yn gyfreithiol i'r Heddlu gyhoeddi'r adran bolisi ac asesu'r rhan sy'n cynnwys y weithdrefn i sicrhau na chyhoeddir unrhyw wybodaeth sensitif. Yn gyffredinol, y sefyllfa ddiofyn fydd y bydd dogfen bolisi a gweithdrefn ategol yn cael ei chynhyrchu ar wahân.

Mae'n ofynnol felly adolygu'r ddogfen hon i sefydlu ei haddasrwydd i'w chyhoeddi. Nodwch isod a yw'r ddogfen yn addas i'w chyhoeddi yn ei chyfanrwydd ai peidio. Lle credir y bydd datgelu yn niweidiol, disgrifiwch y niwed y byddai'r cyhoeddiad hwnnw'n ei achosi ac amlygwch yr adrannau perthnasol yn y ddogfen. Lle credir y byddai datgelu'n achosi niwed, dylid anfon y ddogfen at yr Uned Ddatgelu i'w hadolygu.

**Addasrwydd ar gyfer cyhoeddi**

| **Addasrwydd ar gyfer cyhoeddi** | **Ydy/Nac ydy** | **Dyddiad** | **Llofnod** |
|---|---|---|---|
| Mae'r ddogfen yn addas i'w chyhoeddi yn ei chyfanrwydd | Ydy | 19.08.21 | [redacted] |
| Mae'r ddogfen yn addas i'w chyhoeddi'n rhannol, rwyf wedi nodi'r adrannau hynny nad wyf yn credu eu bod yn addas i'w datgelu ac rwyf wedi nodi isod y niwed a fyddai'n cael ei achosi wrth gyhoeddi. | Amherthnasol | | |

**Niwed wrth gyhoeddi:** Amherthnasol

**Adolygiad Rhyddid Gwybodaeth - i'w gwblhau gan yr Uned Ddatgelu**

(Dim ond yn ofynnol os yw'r awdur yn credu y byddai datgelu'n achosi niwed)

| **Addasrwydd ar gyfer cyhoeddi** | **Ydy/Nac ydy** | **Dyddiad** | **Penderfynwr Rhyddid Gwybodaeth** |
|---|---|---|---|
| Mae'r ddogfen yn addas i'w chyhoeddi yn ei chyfanrwydd | | | |
| Mae'r ddogfen yn addas i'w datgelu yn rhannol a gwnaed y golygiadau perthnasol. Mae fersiwn ar gyfer y cyhoedd wedi'i chreu. | | | |

Ar ôl cynnal adolygiad, dylai'r Swyddog Datgelu Rhyddid Gwybodaeth ddychwelyd y ddogfen at awdur y polisi ac yn dilyn cymeradwyaeth, dylid cyhoeddi'r ddogfen o fewn Cynllun Cyhoeddi'r Heddlu. Dylid dwyn unrhyw newidiadau i'r ddogfen yn y dyfodol i sylw'r Uned Ddatgelu, fel sy'n briodol.

## RHEOLI FERSIYNAU LLAWN

| Fersiwn | Dyddiad | Awdur | Rhesymeg |
|---|---|---|---|
| 5.0 | 09/09/2021 | [redacted] | Cymeradwyaeth - Templed newydd ac adolygiad |
| 4.0 | 19/05/2015 | [redacted] | Newidiadau i adlewyrchu newidiadau i Strwythur yr Heddlu ar ôl cwblhau fersiwn y Cyhoedd yn Gyntaf |
| 3.0 | 16/08/2013 | | Ailysgrifennu'r polisi i adlewyrchu lansiad Arferion Proffesiynol Awdurdodedig yr Heddlu (Gwneud Penderfyniadau) |
| 2.0 | 16/07/2013 | | Diwygiad i adlewyrchu newid yn strwythur yr adran |
| 1.0 | 21/12/2011 | | Fersiwn gyntaf |